Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Adroddiad (SLC (3) 22-09)

Dyddiad: 7 Hydref 2009
Amser: 9.30
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 7 Hydref 2009. Roedd yr Aelodau Pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, William Graham AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AC a Mike German AC. Ni chafwyd unrhyw ddirprwyon.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC329 – Rheoliadau Deddf Plant 1989, Deddf Safonau Gofal 2000 a Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 15 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

SLC331 - Rheoliadau Addysg (Ysgolion Annibynnol) (Personau Anaddas) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 20 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

SLC332 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim a Phwyllgorau Safonau) (Diwygio) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 19 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Medi 2009. Yn dod i rym ar 19 Hydref 2009

SLC333 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 28 Medi 2009. Yn dod i rym ar 20 Hydref 2009

SLC335 - Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Medi. Fe'u gosodwyd ar 30 Medi 2009. Yn dod i rym ar 21 Hydref 2009

Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC330 – Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 17 Medi 2009. Fe'u gosodwyd ar 21 Medi 2009. Yn dod i rym ar 12 Hydref 2009

Atodwyd adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar y Rheoliadau hyn fel Atodiad 1.

Busnes arall

Adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Ofal Iechyd Trawsffiniol

Nododd yr Aelodau adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar Ofal Iechyd Trawsffiniol ac ymateb y Gweinidog i'r adroddiad hwnnw. Nododd yr Aelodau fod gan y Pwyllgor ddiddordeb yn y mater hwn gan y byddai rheoliadau a fyddai'n deillio o Gyfarwyddeb yr UE yn dod gerbron y Pwyllgor. Nododd yr Aelodau y byddai adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref 2009. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod anffurfiol gyda Chadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i drafod y mater hwn a materion eraill sy'n ymwneud â gwaith y ddau bwyllgor.

Eitemau 5 a 6 ar yr agenda - Ystyried adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Mesur Tlodi Plant ac ystyried y papur drafft ar yr Adolygiad o Offerynnau Statudol

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi), penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod tra y byddai'n trafod y dystiolaeth a'r argymhellion ar gyfer adroddiad drafft y Pwyllgor ar y Mesur Tlodi Plant ac yn ystyried y papur drafft ar yr Adolygiad o Offerynnau Statudol.

Janet Ryder AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

7 Hydref 2009

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

(SLC(3)-22-09)

SLC330

Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

Teitl: Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i wahanol setiau o reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Addysg 1996, Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, a Deddf Addysg 2002 i adlewyrchu newidiadau a fydd yn digwydd o ganlyniad i gychwyn y darpariaethau gwahardd yn Neddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ("y DDGH") a chychwyn darpariaethau newydd (a fewnosodwyd gan y DDGH) yn Neddf yr Heddlu 1997.

Gweithdrefn: Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn–

Mae rheoliad 8 (2) (a) (ii) yn y testun Saesneg yn dyblygu cyfeiriad at Ddeddf yr Heddlu 1997 yn anghywir, a hynny'n gyntaf drwy gyfeirio at "the Police Act 1997" ei hun, ac yna drwy gyfeirio at "that Act". [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)].

Mae rheoliad 8 (2) (a) (ii) yn y testun Cymraeg yn anghyson â'r testun Saesneg gan nad yw'n cyfeirio at Ddeddf yr Heddlu ac yn lle hynny mae'n cyfeirio at y "Ddeddf honno". [Rheol Sefydlog 15.2 (vii)].

Janet Ryder
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

7 Hydref 2009

Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Rheoliadau Addysg (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Diogelu Plant) (Cymru) 2009

Yr ymateb yw bod y Llywodraeth yn derbyn y pwyntiau adrodd a bydd yn gosod OS diwygio gerbron i gywiro'r camgymeriadau ac yn gwneud hynny mewn pryd i'r offeryn gychwyn heb fod yn hwyrach na 6 Tachwedd. Dyddiad dod i rym yr OS gwreiddiol yw 12 Hydref ac felly nid oes amser i gychwyn yr OS diwygio cyn y dyddiad hwnnw.